CRYNODEB
MIS EBRILL 2023

# WYTHNOSAU NID BLYNYDDOEDD

## DYLAI DIAGNOSIS DDIGWYDD MEWN WYTHNOSAU NID BLYNYDDOEDD, NI WAETH PWY YDYCH CHI A BLE RYDYCH CHI'N BYW. MAE METHU Â GWNEUD HYNNY YN NIWEIDIO BYWYDAU CLEIFION AC YN CYNYDDU'R BAICH AR Y GIG.

### MAE POBL YN TREULIO BLYNYDDOEDD MEWN DRYSFA O OEDI, CAMGYFEIRIO A DIWEDD ANGHEUOL

Mae'r briff hwn yn dwyn ynghyd astudiaethau achos a gasglwyd fel rhan o ymchwil a gomisiynwyd gan Crohn's & Colitis UK ac a gynhaliwyd gan Brifysgol Sheffield.

Canfu wahaniaethau mawr yn y ffordd y mae pobl â Crohn's a Llid Briwiol y Colon yn profi eu diagnosis, gan ddatgelu teithiau i ddiagnosis sy'n para rhwng 11 mis a 47 mlynedd. Mae hwn yn annhegwch dwfn y mae angen mynd i'r afael ag ef ar frys[1].

Amlygodd yr ymchwil dri math o oedi sy'n arwain at bobl yn ymdopi am flynyddoedd â symptomau salwch difrifol, mynd yn ôl ac ymlaen rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd ac aros am apwyntiadau, canlyniadau profion ac ateb.



**MAE OEDI HIR YN GWNEUD LLAWFEDDYGAETH 2–4 GWAITH YN FWY TEBYGOL**

### PAM NAD OES AMSER I'W WASTRAFFU

Mae astudiaeth fyd-eang newydd, y fwyaf o'i bath[2], wedi canfod bod cleifion sy'n aros hiraf i gael diagnosis o Crohn's neu Lid Briwiol y Colon rhwng 2 a 4 gwaith yn fwy tebygol o fod angen llawdriniaeth ar y coluddyn[3].

## OEDI CLEFION

6 WYTHNOS

9 MLYNEDD

### MELISSA*

Mae Melissa yn ddynes 20 oed gyda Chlefyd Crohn. Profodd boen difrifol yn yr abdomen, dolur rhydd a blinder am fis cyn gweld fferyllydd, a argymhellodd paracetamol. Pan na wnaeth ei symptomau wella, gwnaeth apwyntiad gyda'i meddyg teulu.

> "Roeddwn i wedi blino'n lan, ac roeddwn i'n mynd i'r toiled yn aml ac roeddwn i'n teimlo nad oedd dim byd yn gweithio…felly roeddwn i eisiau darganfod… beth oedd e."

### MEERA*

Mae Meera yn fenyw 30 oed gyda Chlefyd Crohn. Am naw mlynedd bu'n profi dolur rhydd a phoen yn yr abdomen a fyddai'n mynd a dod. Rhoddodd ei symptomau i lawr i anoddefiad bwyd a chymerodd paracetamol ar gyfer y boen.

Yn y diwedd, gwnaeth apwyntiad meddyg teulu pan fu'n rhaid iddi wrthod cyfweliad swydd oherwydd ei bod yn rhy sâl i fynychu.

> "Ro'n i jyst yn meddwl bod yr hyn ddigwyddodd i mi yn eithaf normal – mynd i'r toiled pedair gwaith yn y bore a thair gwaith gyda'r nos. Wnes i ddim meddwl am funud y bydd hwn yn rhyw fath o afiechyd cronig."

Mae stori Meera yn un rydyn ni'n ei chlywed dro ar ôl tro. Nid yw pobl yn adnabod symptomau salwch difrifol a allai beryglu bywyd pe bai'n cael ei adael yn rhy hir. Mae gormod o bobl yn dileu eu symptomau neu'n chwilio am feddyginiaethau heb eu profi a geir ar-lein.

**MAE ARNOM ANGEN I BAWB GAEL MYNEDIAD AT GYNGOR IECHYD DIBYNADWY, LLE BYNNAG Y MAENT YN CHWILIO AMDANO. CEFNOGWCH EIN HYMGYRCH GYHOEDDUS A HELPWCH BOBL I REOLI EU HIECHYD.**

## OEDI GOFAL SYLFAENOL

2 WYTHNOS

5 MLYNEDD

### AMIR*

Mae Amir yn ddyn 36 oed gyda Llid Briwiol y Colon. Pan aeth at ei feddyg teulu gyda dolur rhydd a gwaed yn ei ysgarthion, gorchmynnodd ei feddyg teulu'r profion perthnasol a'i atgyfeirio at gastroenterolegydd.

> "Ro'n i'n teimlo'n bositif iawn oherwydd doeddwn i ddim yn cael fy niystyrru … ni ddywedodd y meddyg, 'o ceisia beidio â phoeni gymaint neu wnawn ni newid dy ddiet ychydig, neu gwna ychydig mwy o ymarfer corff', roedd yn reit bryderus, ac yn… gwneud i mi deimlo ei bod yn ceisio mynd at wraidd hyn"

### HARRY*

Mae Harry yn ddyn 37 oed â Llid Briwiol y Colon. Pan aeth i'w feddyg teulu â phoen yn yr abdomen a dolur rhydd, fe wnaeth ei feddyg teulu ddiagnosis o Syndrom Coluddyn Llidus (IBS) iddo i ddechrau, a llwyddodd i'w reoli am bum mlynedd. Pan aeth ei symptomau ymlaen i waed yn ei ysgarthion, cyfeiriodd ei feddyg teulu ef i gael endosgopi.

> "Mae'n debyg y byddwn i'n dweud diystyriol. Roeddwn i'n dweud beth ydw i'n ei wneud am hyn ac roedden nhw fel, wel dim byd, dydyn ni ddim yn gwneud dim byd am IBS, dim ond chi yw hynny nawr."

Mae cyflyrau'r coluddyn yn hynod o anodd eu canfod. Gallai claf sy'n dod i fferyllfa neu feddygfa gyda dolur rhydd neu boen stumog neu flinder fod yn profi un o amrywiaeth o gyflyrau.

**MAE ARNOM ANGEN LLWYBR DIAGNOSTIG Y CYTUNWYD ARNO'N GENEDLAETHOL I WEITHWYR GOFAL IECHYD PROFFESIYNOL WNEUD PENDERFYNIADAU AR BA BROFION Y DYLID EU CYNNAL, YM MHA DREFN, AR GYFER Y RHAI SY'N CYFLWYNO SYMPTOMAU GASTROBERFEDDOL IS.**

# OEDI GOFAL EILAIDD

8 WYTHNOS

11 MIS

### JOAN*

Mae Joan yn fenyw 77 oed gyda Chlefyd Crohn. Ar ôl dwy flynedd o gwyno dro ar ôl tro i'w meddyg teulu am ddolur rhydd a phoen yn yr abdomen, fe'i hatgyfeiriwyd at gastroenterolegydd ac i gael colonosgopi. Derbyniodd ei hapwyntiad a phrofion o fewn 8 wythnos a chafodd ddiagnosis o Glefyd Crohn.

**"Roedd yn…rhyddhad ond hefyd yn eithaf trist… yn gwybod ei fod yn rhywbeth na allwch chi ei wella, cael gwared arno'n llwyr, dyna oedd y peth trist. Ond roeddwn i'n eithaf hapus o wybod bod yna gamau pellach… roeddwn i'n teimlo rhyddhad nad oedd yr holl symptomau yn fy mhen."**

### EMILY*


Mae Emily yn fenyw 39 oed gyda Chlefyd Crohn. Arhosodd chwe mis am apwyntiad gastroenteroleg a phum mis arall am endosgopi.

**"Cymerodd yr holl broses gymaint o amser… ar un adeg cefais apwyntiad ar gyfer galwad ffôn, apwyntiad i drefnu apwyntiad arall. Roedd hyn yn hollol wirion…mae yna restrau aros enfawr a phopeth, mae'n teimlo i mi [nad oedd] wedi cael sylw mor ddifrifol ag y dylai."**

Mae cais Rhyddid Gwybodaeth i bob Bwrdd Gofal Integredig, Bwrdd Iechyd, Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar draws y DU wedi datgelu nad yw data ar nifer y bobl yr amheuir bod ganddynt Crohn's neu Lid Briwiol y Colon yn aros am apwyntiadau endosgopi yn cael ei gasglu a'i fonitro'n rheolaidd.

*Mae pob enw wedi ei newid.

MAE ARNOM ANGEN I GLEIFION ALLU CAEL MYNEDIAD AT ENDOSGOPÏAU YN SEILIEDIG AR ANGEN A RISG GLINIGOL. MAE ANGEN I NI GASGLU DATA CADARN A RHEOLAIDD I FONITRO FAINT O BOBL YR AMHEUIR BOD GANDDYNT GLEFYD CROHN NEU GOLITIS SY'N AROS.



## DYLAI DIAGNOSIS DDIGWYDD MEWN WYTHNOSAU NID BLYNYDDOEDD, NI WAETH PWY YDYCH CHI A BLE RYDYCH CHI'N BYW.

CEFNOGWCH EIN GALWAD
#WYTHNOSAUNIDBLYNYDDOEDD
HELPWCH NI I DORRI TRWY'R DRYSFA


Cysylltwch â ni:
**policy@crohnsandcolitis.org.uk**





### ÔL-NODIADAU


1 Hind, D., Sheldon, E and Ezaydi, N. (2022). Qualitative primary research on the patient experience of the journey to diagnosis with Crohn's and Colitis. Unpublished.

2 Researchers from St George's University of London, Imperial College London, and University College London analysed 101 studies representing over 100,000 people with Crohn's Disease and Ulcerative Colitis.

3 Jayasooriya, N., Baillie, S, Blackwell, J. et al., (2023). Systematic review with meta-analysis: Time to diagnosis and the impact of delayed diagnosis on clinical outcomes in inflammatory bowel disease. Aliment Pharmacol Ther. Doi: 10.1111/apt.17370.



© Crohn's & Colitis UK – a registered charity in England & Wales (1117148) and Scotland (SC038632). Registered as a company limited by guarantee in England & Wales (5973370). 1 Bishops Square, Hatfield, AL10 9NE